
YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

Tymor yr Hydref (ii) 2019 – Dosbarth Bl 1 a 2 Mrs Williams, Mr Jones a Mrs Evans

# Bant â ni i gynllunio!

Gawn ni greu llong ofod? John

Sut mae ynni gwynt yn creu trydan? Damien




Beth yw enwau'r planedau? Barnaby

Gawn ni wneud seren i ddisgleirio gan ddefnyddio trydan? Minka

Gawn ni wneud rhywbeth i symud gan ddefnyddio trydan? Torin

Pa wledydd sy'n cael nos pan rydyn ni'n cael dydd? Aron

Beth yw'r haul ? Martha

Sut mae trydan yn gweithio? Gethin

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

Tymor yr Hydref (ii) 2019 – Dosbarth Bl 1 a 2 Mrs Williams, Mr Jones a Mrs Evans

# Thema'r tymor yw: **Goleuni a Thywyllwch**

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau;

Datblygu'r gallu i enwi ac arbed ein gwaith yn y man priodol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu sut i greu cylched drydanol syml;
- Dysgu am wahanol ffynonellau goleuni;
- Dysgu am y planedau a'r sêr yn y gofod;
- Creu ffynhonnell goleuni gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau.

**Y Dyniaethau**

- Dysgu am fywyd cyn trydan a dysgu am hanes dyfeiswyr enwog.
- Dysgu am bwysigrwydd golueni o fewn crefyddau a diwylliannau eraill.
- Dysgu am hanes y Nadolig.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

Sut i ddefnyddio golau a lliw i greu patrymau, effeithiau ac i fynegi teimladau;

Dysgu caneuon newydd a mwynhau ymarfer a pherfformio ein cyngerdd Nadolig.

**Iechyd a Lles**

- Trafod sut y mae gwahanol oleuni yn gwneud i ni deimlo;
- Dysgu am ddiogelwch trydan;
- Ymarfer a datblygu ein sgiliau gymnasteg a pharhau i wella ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau. Rhaid i ni geisio ei ddychwelyd ar ddydd Llun.

Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Bl.2)

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'Gorsaf ofod' ac yna ' Gweithdy Sion Corn' yn y gornel chwarae rôl;
- Darllen a gwrando ar lawer o straeon doniol a diddorol;
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen;
- Mwynhau ysgrifennu at bwrpasau gwahanol, gan gynnwys **ysgrifennu barddoniaeth syml**;
- Ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau;
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd a lluosi;
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur (amser) a thrin data;
- Chwarae amrywiaeth o gêmau mathemateg pen.

**Ymweliadau**

**Panto – 3/12/19**

**Cyngerdd Nadolig- 10/12/19**